

Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

# Llywodraeth Cymru yn ariannu Kancoat Ltd

Chwefror 2017

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru/SeneddArchwilo**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddArchwilo@cynulliad.cymru**
Twitter: **@SeneddArchwilo**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2017**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

# Llywodraeth Cymru yn ariannu Kancoat Ltd

Chwefror 2017

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Sefydlwyd y Pwyllgor hwn ar 22 Mehefin 2016 i gyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheolau Sefydlog 18.2 and 18.3 ac ystyried unrhyw fater arall yn ymwneud â pha mor ddarbodus, effeithlon ac effeithiol y cafodd adnoddau eu defnyddio wrth gyflawni swyddogaethau cyhoeddus yng Nghymru.

**Aelodau cyfredol y Pwyllgor:**



**Nick Ramsay AC(Cadeirydd)**
Ceidwadwyr Cymreig
Monmouth



**Mohammad Asghar AC**
Ceidwadwyr Cymreig
Dwyrain De Cymru



**Mike Hedges AC**
Llafur Cymru
Dwyrain Abertawe



**Lee Waters AC**
Llafur Cymru
Llanelli



**Neil McEvoy AC**
Plaid Cymru
Canol De Cymru



**Neil Hamilton AC**
UKIP Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



**Rhianon Passmore AC**
Llafur Cymru
Islwyn

# Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd ..... 5

Argymhellion ..... 6

01. Cyflwyniad ..... 8

02. Cyllid Busnes Llywodraeth Cymru ..... 10

03. Model Busnes Kancoat ..... 18

Atodiad - Tystion ..... 23

# Rhagair y Cadeirydd

Cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru adroddiad ar Lywodraeth Cymru yn ariannu Kancoat Ltd. Roedd hwn yn gwmni araenu coiliau metel a gafodd gymorth ariannol gwerth £3.4 miliwn gan Lywodraeth Cymru. Aeth y Cwmni i ddwylo'r gweinyddwyr ym mis Medi 2014, ac mae colledion Llywodraeth Cymru hyd yma yn £1.5 miliwn o leiaf hyd yma, ac yn cynyddu.

Dewisodd y Pwyllgor wneud rhagor o waith ar adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, o ystyried ein pryderon yr ymddengys fod llawer o'r materion a nodir yn yr adroddiad yn debyg i'r materion sy'n gysylltiedig â busnesau eraill sydd wedi methu ac sy'n cael cyllid gan Lywodraeth Cymru.

Ar ôl clywed y dystiolaeth o'r ymchwiliad hwn, mae gan y Pwyllgor bryderon difrifol ynghylch a ddylai'r penderfyniad gwreiddiol i fuddsoddi fod wedi'i wneud, o ystyried yr ansicrwydd sylweddol am y cwmni a hyfywedd masnachol y prosiect arfaethedig.

Roedd thema allweddol a ddaeth i'r amlwg yn y dystiolaeth a glywsom yn ymwneud â diffyg eglurder a thryloywder o amgylch prosesau gwneud penderfyniadau Llywodraeth Cymru.  Mae ein tystiolaeth yn awgrymu bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud nifer o benderfyniadau mewn perthynas â chyllid busnes, megis ehangu'r diffiniadau o sectorau a'r amodau ar gyfer darparu cyllid ad-daladwy neu gyllid ad-daladwy nad oes angen ei ad-dalu, nad ydynt wedi'u dogfennu'n dda nac wedi'u cyfleu'n glir.

Nodwn y buddsoddwyd yn Kancoat Ltd yn ystod argyfwng economaidd byd-eang a ddechreuodd yn 2008, ac ymddengys fod hyn wedi bod yn ffactor pwysig yn y broses o wneud penderfyniadau Llywodraeth Cymru.  Yn anochel, bydd dirywiad economaidd yn effeithio ar y cymorth sydd ar gael i fusnesau a bydd y penderfyniadau a wneir yn yr amgylchedd economaidd hwn yn fwy heriol ac o bosibl yn fwy o risg nag yn ystod cyfnodau mwy bywiog. Fodd bynnag, credwn na ddylai'r ffactorau hyn gymylu barn i'r graddau ei fod yn arwain at wneud penderfyniadau gwael yn seiliedig ar dystiolaeth ategol annigonol.

Yn yr adroddiad hwn rydym yn gwneud cyfres o argymhellion sy'n ceisio tynhau gweithdrefnau a gwella'r fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau, er mwyn lleihau'r risg y bydd penderfyniadau amheus yn cael eu gwneud eto.

Rydym yn falch bod yr Archwilydd Cyffredinol yn cynnal archwiliad gwerth am arian ehangach o ymagwedd Llywodraeth Cymru tuag at gyllid busnes yn ystod 2017, gan fod y Pwyllgor wedi mynegi pryder ynghylch rhai camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi busnesau Cymru. Mae hwn yn faes mor hanfodol er mwyn sicrhau ffyniant Cymru yn y dyfodol fel ein bod am sicrhau y caiff ei weinyddu yn y ffordd orau bosibl.

## Argymhellion

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro'r diffiniad o 'ddeunyddiau a gweithgynhyrchu uwch' a'r bwriad fod hyn yn cael ei ystyried fel un sector. Dylai'r eglurhad hwn fod yn glir o ran diffinio beth yn union sydd wedi'i gynnwys o fewn 'deunyddiau a gweithgynhyrchu uwch'. .....Tudalen 11

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cadw cofnodion clir o benderfyniadau ynghylch dyfarnu cyllid y tu allan i ddiffiniadau sefydledig. Bydd hyn yn sicrhau nad oes unrhyw gwestiynau o ran triniaeth anghyson yn y broses o wneud penderfyniadau gan y cwmnïau hynny y tu allan i'r diffiniad traddodiadol nad ydynt wedi cael cymorth................................Tudalen 11

Argymhelliad 3. Er mwyn sicrhau bod digon o eglurder, mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn diwygio'r derminoleg ar gyfer yr arian y mae'n ei ddarparu o 'ad-daladwy nad oes angen ei ad-dalu' i rywbeth sy'n disgrifio'n fwy cywir yr hyn sy'n cael ei gynnig.............................................Tudalen 13

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn datblygu ac yn cyhoeddi canllawiau cliriach ynghylch pryd y caiff cyllid busnes ad-daladwy nad oes angen ei ad-dalu ei gynnig a phryd y bydd cyllid busnes ad-daladwy yn cael ei gynnig. Rydym yn awgrymu y gall yr Archwilydd Cyffredinol fod am ddychwelyd at y mater hwn yn ei waith yn y dyfodol ar gymorth busnes. ........................................................................................................................Tudalen 13

Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro'r gwahaniaeth rhwng cyllid busnes ad-daladwy gwirioneddol (di-log) a benthyciadau masnachol.........................................................................Tudalen 13

Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu canllawiau cadarn wedi'u diweddaru ar adnabod a lliniaru risgiau, sy'n adlewyrchu'r gwersi a ddysgwyd o'r ymchwiliad hwn. Dylai'r canllawiau hyn sicrhau bod gan y rhai sy'n gwneud penderfyniadau fframwaith mwy cadarn i weithio gydag ef ac felly rhoi ystyriaeth briodol i risg. Byddem yn disgwyl i adnabod risg a digonolrwydd unrhyw gamau lliniaru arfaethedig fod yn elfennau sylweddol yng ngwaith yr Archwilydd Cyffredinol yn y dyfodol ar Gyllid Busnes. ........................................................................................................................Tudalen 14

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Prif Weinidog yn sicrhau bod y Cod Gweinidogol yn ei gwneud yn ofynnol ystyried gwrthdaro canfyddedig o ran buddiannau a bod canlyniad ystyriaeth o'r fath yn cael ei ddogfennu'n llawn ac yn ffurfiol. ....................Tudalen 17

**Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r penderfyniadau i fynd yn groes i gyngor yr adroddiad diwydrwydd dyladwy gael eu cofnodi'n glir yn nogfennaeth y prosiect. Nid yw hyn yn golygu y dylid dilyn hyn ym mhob achos, ond dylai tystiolaeth o ystyriaeth lawn yn cynnwys dadansoddiad o'r farchnad, a'r rhesymau dros benderfyniadau gael eu cofnodi er mwyn sicrhau y cynhelir gwerth diwydrwydd dyladwy. ....................Tudalen 19

**Argymhelliad 9.** Mae'r Pwyllgor yn argymell, wrth ymdrin â cheisiadau am ddarparu cymorth ariannol ychwanegol i gwmnïau, y dylai Llywodraeth Cymru gynnwys cyfnod mwy cadarn ar gyfer 'oedi ac adlewyrchu' yn ei phrosesau diwydrwydd dyladwy, ystyriaeth a chymeradwyaeth. ....................Tudalen 19

**Argymhelliad 10.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer buddsoddiadau yn nodi'n glir bod angen cael prisiadau proffesiynol annibynnol a diweddar ar unrhyw asedau a gynigir fel diogelwch cyfochrog cyn cytuno ar unrhyw gyllid. ....................Tudalen 21

**Argymhelliad 11.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor am ganlyniad unrhyw drafodaethau ar gyfer y safle, a'r effaith a gaiff hyn ar y swm terfynol a gollwyd o ganlyniad i'r buddsoddiad yn Kancoat a dylai hyn gynnwys cost unrhyw waith adfer. ....................Tudalen 22

# 01. Cyflwyniad

**1.** Cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) adroddiad ar 14 Gorffennaf 2016, yn archwilio Llywodraeth Cymru yn ariannu Kancoat Ltd (Kancoat). Mae'r adroddiad yn rhoi cyfrif ffeithiol o'r materion allweddol sy'n ymwneud â phecyn cymorth ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer y cwmni hwn. Mae'n cyflwyno'r materion hyn yng nghyd-destun ehangach dull Llywodraeth Cymru o gefnogi busnesau yng Nghymru, ond gan ganolbwyntio'n benodol ar y pecynnau ariannol a oedd ar gael i'r sector 'Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch' yng Nghymru.

**2.** Dyma'r tro cyntaf i'r Archwilydd Cyffredinol adrodd yn ffurfiol ar sail 'ffeithiau'n unig', sy'n golygu na wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol 'ffurfio casgliadau gwerthusol' na 'gwneud argymhellion penodol'. Yn hytrach, mae'r adroddiad yn nodi'r ffeithiau ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (y Pwyllgor) i'w hystyried. Dyma ddull sydd hefyd wedi'i fabwysiadu yn ddiweddar gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar gyfer rhai o'i phrosesau adrodd. Bu'r Pwyllgor yn trafod yr adroddiad yn ei gyfarfod ar 19 Medi 2016 a chynhaliodd sesiwn dystiolaeth ar 14 Tachwedd 2016, gyda'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol perthnasol o Lywodraeth Cymru a swyddogion eraill.

## Cefndir i archwiliad yr Archwilydd Cyffredinol o gefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Kancoat

**3.** Roedd Kancoat yn gwmni cyfyngedig a sefydlwyd yn gynnar yn 2012 i gymryd drosodd y broses o weithredu llinell gynhyrchu araenu coiliau alwminiwm ar safle Alcoa ar ystâd Waunarlwydd yn Abertawe. Roedd llinell Kancoat yn prosesu dur wedi'i lacro ymlaen llaw a stribedi tunplat ar gyfer gweithgynhyrchu cydrannau caniau. Mae'r cydrannau hyn, a elwir yn stoc caniau, yn cynnwys cylchoedd caniau, capiau aerosol a gwaelodion caniau.

**4.** Darparodd Llywodraeth Cymru Kancoat gyda phecyn cyllid ar gyfer caffael llinell araenu coiliau a gweithredu'r llinell a oedd yn gyfanswm o £3.4 miliwn. Er gwaethaf hyn, methodd y fenter busnes ac aeth y cwmni i ddwylo'r gweinyddwyr ym mis Medi 2014.

**5.** Yn dilyn y methiant hwn, cafodd yr Archwilydd Cyffredinol ohebiaeth yn codi cwestiynau am y canlynol:

- Gwerth am arian y pecyn cymorth ariannol a roddodd Llywodraeth Cymru i Kancoat; a
- Thryloywder cydberthynas Kancoat â chwmni arall o'r enw Coilcolor Ltd (Coilcolor).

**6.** Ar gais Swyddfa Archwilio Cymru, trafododd Gwasanaeth Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru y materion hyn fel rhan o'i adolygiad o gydymffurfiad Llywodraeth Cymru â'i pholisïau a'i gweithdrefnau ei hun wrth gefnogi Kancoat. Daeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol i'r casgliad, er bod Llywodraeth Cymru wedi cydymffurfio â'i pholisïau a'i gweithdrefnau, i'r graddau fod y rhain yn berthnasol, roedd angen iddi gyflwyno gweithdrefnau ychwanegol i fynd i'r afael â benthyciadau masnachol a thrafodion eiddo a ddefnyddiwyd ym mhecyn cymorth Kancoat.

**7.** Penderfynodd yr Archwilydd Cyffredinol gynnal adolygiad archwilio allanol o achos Kancoat gan fod rhai materion wedi'u crybwyll ym mhapurau'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol ynghylch rheoli risg drwy noddwyr y prosiect o fewn Grŵp yr Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru. At hynny, bu nifer o achosion eraill lle'r oedd cwmnïau a gafodd cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwyr.

**8.** Ers penderfyniad yr Archwilydd Cyffredinol i lunio adroddiad ar Kancoat, soniwyd am nifer o achosion eraill yn y cyfryngau mewn perthynas ag ymagwedd Llywodraeth Cymru tuag at gyllid busnes, megis y cwmni Oysterworld. O ganlyniad i hyn, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi dweud wrth y Pwyllgor ei fod yn ystyried cynnal archwiliad gwerth am arian ehangach o ymagwedd Llywodraeth Cymru tuag at gyllid busnes yn ystod 2017. Mae'r cwmpas a'r amserlen ar gyfer yr adolygiad ehangach hwnnw i'w cadarnhau ond deallwn y byddai'n ystyried, mewn termau ehangach, y trefniadau ar gyfer llywodraethu a rheoli rhaglenni cymorth busnes a thystiolaeth o werth am arian. Rydym yn cydnabod bod yr adolygiad yn annhebygol o archwilio unrhyw achos unigol i'r un lefel o fanylder â Kancoat. Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r dull hwn yn llawn, a thrwy'r adroddiad hwn rydym wedi cyfeirio at y meysydd y credwn y byddent yn cael budd o'u hystyried fel rhan o'r adolygiad hwn.[1]

[1] Archwilydd Cyffredinol Cymru, Llywodraeth Cymru yn ariannu Kancoat Ltd, Gorffennaf 2016

# 02. Cyllid Busnes Llywodraeth Cymru

**9.** Rhwng 2012-13 a 2014-15, mae ffigurau Llywodraeth Cymru yn nodi ei bod wedi darparu tua £266 miliwn o gyllid i fusnesau sy'n gweithredu o fewn yr wyth sector busnes, a amlinellir isod ym mharagraff 10. Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn disgrifio tri math o becyn cymorth sydd ar gael i fusnesau yn y sector deunyddiau a gweithgynhyrchu uwch, ac roedd pob un ohonynt yn berthnasol i Kancoat:

- Cyllid Busnes Ad-daladwy;
- Benthyciadau masnachol; a
- Cymorth o ran eiddo - prif brydlesi.

## Diffiniad o sectorau

**10.** Mae Grŵp yr Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol o fewn Llywodraeth Cymru yn gweithredu wyth tîm sector sy'n darparu cymorth ariannol ac anariannol i fusnesau. Dyma'r sectorau hyn:

- Ynni a'r amgylchedd;
- Adeiladu;
- Y diwydiannau creadigol;
- Deunyddiau a gweithgynhyrchu uwch;
- Gwasanaethau ariannol a phroffesiynol;
- Technolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu;
- Gwyddorau bywyd; a
- Thwristiaeth.

**11.** Cafodd Kancoat ei ddosbarthu fel busnes o fewn y sector 'deunyddiau a gweithgynhyrchu uwch', a chafodd gyllid Llywodraeth Cymru fel rhan o'r sector hwnnw. Holodd y Pwyllgor y swyddogion am ddiffiniad o'r sector hwn, ac ai'r bwriad oedd cefnogi 'deunyddiau a gweithgynhyrchu uwch' fel dosbarthiad unigol, gan nad yw natur gwaith arfaethedig Kancoat, rhoi haen o baent/lliw ar ddur ac alwminiwm, ynddo'i hun yn ymddangos fel rhywbeth y gellir ei ddosbarthu fel 'deunyddiau uwch'. Cadarnhaodd James Price, Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol Grŵp yr Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol o fewn Llywodraeth Cymru y caiff ei ystyried yn un sector[2] a'i fod yn credu y byddai Kancoat yn cael ei ddosbarthu fel y cyfryw oherwydd:

> "When the financial crisis hit, there was a review of what was in sectors and what wasn't in sectors, and I think it's fair to say that the boundary of a number of sectors was widened quite significantly to include a wider definition. So, some people would say that that type of basic metal processing shouldn't be advanced materials. Other people at the time would have argued, 'Yes, it should'. And probably, the reasons that would have been put forward for why it should—I don't know; I'd have to check the record—would have been down to

[2] Cofnod y Trafodion, 14 Tachwedd 2016, paragraff 28

> the kit that was being used, the capital intensive nature of the activity, and so on."[3]

**12.** Yn dilyn hynny, ysgrifennodd y Llywodraeth at y Pwyllgor i egluro sut y mae'r prosesau sy'n berthnasol i weithrediad a chynhyrchiad Kancoat yn cyd-fynd â phrosesau sydd wedi'u dosbarthu fel rhai sy'n berthnasol i'r sector deunyddiau a gweithgynhyrchu uwch. Roedd yr eglurhad a ddarparwyd yn nodi fod 'codau SIC ar gyfer 2003 a 2007, [...sydd] fel arfer yn gysylltiedig â'r Sector Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch'.[4] Fodd bynnag, nid yw'n glir beth yn union y mae'r rhain yn cyfeirio atynt, ac ychydig maent yn ei wneud i ychwanegu eglurder at y cyfeiriad uchod gan James Price bod ffin nifer o sectorau wedi ehangu yn sylweddol i gynnwys diffiniad ehangach.

**13.** Er bod y Pwyllgor yn deall yr angen i wneud y sectorau mor eang â phosibl, er mwyn cynnig cymorth i nifer fawr o fusnesau, yn enwedig o ystyried yr argyfwng ariannol byd-eang, rydym yn bryderus nad oedd Llywodraeth Cymru yn gallu rhoi rhesymau inni am y gwyriad o'r diffiniad cychwynnol, ac nad oedd cofnod o hyn ychwaith. Rydym yn cynghori'r Llywodraeth y byddai'n ddoeth cadw cofnod o benderfyniad o'r fath er mwyn sicrhau nad oes unrhyw gwestiynau o ran triniaeth anghyson yn y broses o wneud penderfyniadau gan y cwmnïau hynny y tu allan i'r diffiniad traddodiadol nad ydynt wedi cael cymorth.

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro'r diffiniad o 'ddeunyddiau a gweithgynhyrchu uwch' a'r bwriad fod hyn yn cael ei ystyried fel un sector. Dylai'r eglurhad hwn fod yn glir o ran diffinio beth yn union sydd wedi'i gynnwys o fewn 'deunyddiau a gweithgynhyrchu uwch'.

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cadw cofnodion clir o benderfyniadau ynghylch dyfarnu cyllid y tu allan i ddiffiniadau sefydledig. Bydd hyn yn sicrhau nad oes unrhyw gwestiynau o ran triniaeth anghyson yn y broses o wneud penderfyniadau gan y cwmnïau hynny y tu allan i'r diffiniad traddodiadol nad ydynt wedi cael cymorth.

## Cyllid Busnes Ad-daladwy

**14.** Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi bod £166 miliwn o Gyllid Busnes Ad-daladwy ar gael i fusnesau rhwng mis Ebrill 2012 a mis Mawrth 2015. Mewn gwirionedd, gwnaed £154 miliwn (93 y cant) ar gael ar sail nad yw'n ad-daladwy, gan gynnwys £778,000 ar gyfer Kancoat.5

**15.** Mae dogfen Llywodraeth Cymru 'Adnewyddu'r Economi: Cyfeiriad newydd',6 a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2010, yn nodi'r cymorth dewisol i fusnesau. Darperir Cyllid Busnes Ad-daladwy fel grant ac mae lefel y cymorth yn agored i drafodaeth ond rhaid iddo bob amser fod o fewn terfynau'r Cymorth Gwladwriaethol a dim mwy nag sydd ei angen i alluogi'r prosiect i fynd yn ei flaen. Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn dyfynnu eglurhad gan swyddogion Llywodraeth Cymru, sef:

> "... [y] gellir pennu bod Cyllid Busnes Ad-daladwy yn gyllid nad oes angen ei ad-dalu yn y naill neu'r llall o'r amgylchiadau canlynol:
>
> a) Prosiect symudol, a fyddai'n cynnwys mewnfuddsoddi. Ni fydd cyllid ar

[3] Cofnod y Trafodion, 14 Tachwedd 2016, paragraff 32
[4] Tystiolaeth ysgrifenedig, PAC(5)-12-16 PTN4, 12 Rhagfyr 2016
[5] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar archwilio cymorth Llywodraeth Cymru ar gyfer Kancoat, Gorffennaf 2016
[6] Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd, Llywodraeth Cymru, Gorffennaf 2016

gyfer prosiectau symudol yn dod yn ad-daladwy ac eithrio pan na chyrhaeddir targedau, er enghraifft o ran nifer ac ansawdd y swyddi, hirhoedledd y prosiect, ayb.

b) Gyda chymeradwyaeth y Gweinidog ac mewn 'amgylchiadau eithriadol', gellir cynnig y cynllun ar sail trefniant anad-daladwy. Cafwyd enghraifft o hyn wrth gyflenwi Cronfa Twf Economaidd Cymru, pan gymeradwywyd ystyried ceisiadau oddi tani am Gyllid Busnes Ad-daladwy ar sail anad-daladwy."[7]

**16.** Archwiliodd y Pwyllgor yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei olygu mewn gwirionedd gan y term 'cyllid ad-daladwy nad oes angen ei ad-dalu'. Eglurodd James Price:

"It's actually very simple: repayable business finance is a grant that you have to pay back, typically without interest. Non-repayable repayable business finance is a grant."[8]

**17.** Ychwanegodd fod 'Adnewyddu'r Economi: Cyfeiriad newydd' wedi'i ddiwygio i gynnwys cyllid ad-daladwy nad oes angen ei ad-dalu oherwydd:

"When the policy was rolled out in the period of the financial crash, it was concluded that that didn't work, so it was amended. It was amended in a time-limited way, because people always thought that we would go back to try and offer non-repayable finance. But, in the view of the decision makers, which would be the politicians—and I think they're right—we haven't yet reached a time when the economy is good enough to remove grants from the system."[9]

**18.** Holodd y Pwyllgor am y rhesymeg ar gyfer y newid cyfeiriad ac a oedd ffordd deg a thryloyw o benderfynu a yw cyllid busnes ad-daladwy yn ad-daladwy neu ddim yn ad-daladwy. O ran sut y gwnaed y penderfyniad ac ar ba delerau y cynigiwyd y cyllid, eglurodd James Price fod dau linyn a nodir yn y polisi adnewyddu economaidd - prosiectau symudol a chategori arall fel a ganlyn:

"There was then a further category that was on an exceptional basis. Now, when the credit crunch happened, Ministers signed off a series of exceptional bases, which was the Welsh economic growth fund, if anyone can remember that so-called WEGF. I think there were three rounds of WEGF, which delivered grant to a significant number of smaller businesses. That was all signed off as an exceptional basis, so it simply went out as grant, and then every business is told what the rules are and that they can make a case on an exceptional basis for it to be non-repayable. The test for us being that we need to provide the minimum necessary for a project to go ahead, and so the investment panel or the Welsh Industrial Development Advisory Board will scrutinise the project to test whether that is the case."[10]

---

[7] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar archwilio cymorth Llywodraeth Cymru ar gyfer Kancoat, paragraff 1.11, Gorffennaf 2016
[8] Cofnod y Trafodion, 14 Tachwedd 2016, paragraff 96
[9] Cofnod y Trafodion, 14 Tachwedd 2016, paragraff 108
[10] Cofnod y Trafodion, 14 Tachwedd 2016, paragraff 115

**19.** Er gwaethaf yr eglurhad hwn, mae'r Pwyllgor yn parhau i fod yn bryderus nad ymddengys fod dull clir wedi'i nodi yn penderfynu a ddylid cynnig cyllid ar sail ad-daladwy neu ar sail nad oes angen ei ad-dalu i gwmnïau sy'n gwneud cais.

**20.** At hynny, nid yw'n glir ychwaith sut y mae Llywodraeth Cymru yn gwahaniaethu rhwng grant a benthyciad. Ymddengys fod yr eglurhad am gyllid busnes ad-daladwy yr hyn a fyddai'n cael ei ystyried yn gyffredinol yn *fenthyciad di-log*. Ymddengys fod y meini prawf ar gyfer y penderfyniadau hyn braidd yn wan ac yn ad hoc. Ymddengys i'r Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru yn methu â mynegi rhesymau clir dros ei phenderfyniadau ar y mathau o gymorth ariannol a gynigir i gwmnïau ar hyn o bryd, gan ei gadael yn agored i gwestiynau a heriau cyfreithiol posibl o ran cysondeb a thriniaeth deg.

**Argymhelliad 3.** Er mwyn sicrhau bod digon o eglurder, mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn diwygio'r derminoleg ar gyfer yr arian y mae'n ei ddarparu o 'ad-daladwy nad oes angen ei ad-dalu' i rywbeth sy'n disgrifio'n fwy cywir yr hyn sy'n cael ei gynnig.

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn datblygu ac yn cyhoeddi canllawiau cliriach ynghylch pryd y caiff cyllid busnes ad-daladwy nad oes angen ei ad-dalu ei gynnig a phryd y bydd cyllid busnes ad-daladwy yn cael ei gynnig. Rydym yn awgrymu y gall yr Archwilydd Cyffredinol fod am ddychwelyd at y mater hwn yn ei waith yn y dyfodol ar gymorth busnes.

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro'r gwahaniaeth rhwng cyllid busnes ad-daladwy gwirioneddol (di-log) a benthyciadau masnachol.

## Rheolaeth Llywodraeth Cymru o ran risg wrth gefnogi busnesau

**21.** Cododd y Pwyllgor nifer o ymholiadau gyda Llywodraeth Cymru ynghylch y risgiau a nodwyd ar gyfer buddsoddiad Kancoat yn ystod y sesiwn dystiolaeth, a chytunodd Llywodraeth Cymru i ysgrifennu at y Pwyllgor gyda rhagor o wybodaeth am y risgiau a'r camau lliniaru a gymerwyd. Mewn gohebiaeth, nododd Llywodraeth Cymru 11 o risgiau a gafodd eu hasesu a'u lliniaru ystod y broses arfarnu:

1. Peidio â sicrhau lefel ymarferol o archebion;
2. Peidio â chael y bobl iawn;
3. Diffyg ar y cynhyrchion a gyflenwir i gwsmeriaid;
4. Diffyg ar y cynhyrchion a gyflenwir i'r cwmni;
5. Diffyg ar yr offer prosesu;
6. Treialon hir cyn-gymhwyso;
7. Peidio â chyflenwi i'r cwsmeriaid mewn pryd;
8. Colli staff allweddol;
9. Peidio â tharo'r targedau cynhyrchu;
10. Prisiau ynni'n codi; a
11. Risgiau wedi'u hyswirio.[11]

[11] Tystiolaeth ysgrifenedig, PAC(5)-12-16 PTN4, 12 Rhagfyr 2016

**22.** Ar ôl ystyried y rhestr, roedd y Pwyllgor yn pryderu o weld na chafodd dibyniaeth gychwynnol Kancoat ar un cyflenwr coiliau dur ei nodi fel risg gan Lywodraeth Cymru yn ystod y broses arfarnu. Ymddengys fod anawsterau'r cwmni gydag un cyflenwr wedi bod yn ffactor arwyddocaol yn y benthyciad pellach a ddarparwyd yn 2014, ychydig cyn i Kancoat fynd i ddwylo'r gweinyddwyr. Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi fel a ganlyn:

> "Roedd anawsterau annisgwyl gyda phrif gyflenwr Kancoat yn y DU o goil dur yn golygu bod Kancoat yn ystyried nad oedd ganddo ddewis arall heblaw am chwilio am gyflenwyr newydd yn Ffrainc a Korea. Arweiniodd y deufis arweiniol dilynol ar gyfer y cynnyrch at oedi wrth dderbyn incwm yn erbyn y gwerthiant a ragwelwyd yn y cynllun busnes. At hynny, roedd y ddau gyflenwr tramor yn mynnu taliad ymlaen llaw. Roedd y ddau ffactor, gyda'i gilydd, yn creu problem llif arian sylweddol ar gyfer Kancoat. Ceisiodd Kancoat gyllid o ffynonellau masnachol eraill, gan gynnwys cais ychwanegol i Cyllid Cymru a'r cynllun Gwarant Cyllid Menter - cynllun benthyca Llywodraeth y DU sydd â'r bwriad o helpu busnesau hyfyw llai a allai fod yn ei chael yn anodd sicrhau cyllid, drwy hwyluso benthyciadau banc rhwng £1,000 a £1 filiwn - ond roedd yn aflwyddiannus."[12]

**23.** Er gwaethaf ymgymryd i ddarparu gwybodaeth am y camau lliniaru fel rhan o'i gohebiaeth ddilynol gychwynnol, roedd yr ymateb gan Lywodraeth Cymru yn amwys iawn, gan annog y Pwyllgor i ysgrifennu eto i sefydlu'r camau a gymerwyd gan y Llywodraeth i liniaru'r risg. Roedd diffyg manylion yn yr ymateb dilynol o hyd.

**24.** Nid yw'r Pwyllgor yn ystyried bod yr ymateb gan Lywodraeth Cymru i ddarparu digon o eglurder o ran y camau lliniaru ar gyfer y risgiau, yn arbennig risgiau dau, pump, wyth a naw a nodir ym mharagraff 21 uchod. Mae'n anodd llunio barn ar benderfyniadau ynghylch rheoli risg, a bod yn hyderus yn y penderfyniadau hyn, heb yr eglurder hwn. At hynny, er gwaethaf yr ymateb gan Lywodraeth Cymru nad oedd Cynllun Busnes Kancoat yn ddibynnol ar un cyflenwr,[13] ymddengys fod hepgor dibyniaeth ar gyflenwyr cyfyngedig o ddeunyddiau o'r rhestr o risgiau a nodwyd yn amryfusedd sylweddol, ac yn un a allai fod wedi cael effaith ar ganlyniad y cais hwn am gyllid. Mae'r Pwyllgor yn disgwyl gweld dull llawer mwy ystyriol o ran adnabod a lliniaru risgiau ar gyfer ceisiadau yn y dyfodol.

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu canllawiau cadarn wedi'u diweddaru ar adnabod a lliniaru risgiau, sy'n adlewyrchu'r gwersi a ddysgwyd o'r ymchwiliad hwn. Dylai'r canllawiau hyn sicrhau bod gan y rhai sy'n gwneud penderfyniadau fframwaith mwy cadarn i weithio gydag ef ac felly rhoi ystyriaeth briodol i risg. Byddem yn disgwyl i adnabod risg a digonolrwydd unrhyw gamau lliniaru arfaethedig fod yn elfennau sylweddol yng ngwaith yr Archwilydd Cyffredinol yn y dyfodol ar Gyllid Busnes.

[12] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar archwilio cymorth Llywodraeth Cymru ar gyfer Kancoat, paragraff 3.46, Gorffennaf 2016

[13] Tystiolaeth ysgrifenedig, PAC(5)-03-17 PTN2, 23 Ionawr 2017

**25.** Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi nifer o newidiadau mewn polisïau a gweithdrefnau sydd wedi'u cyflwyno gan Lywodraeth Cymru yn sgil achos Kancoat. Darparodd Llywodraeth Cymru ddiweddariad i'r Pwyllgor hefyd ar y gwersi a ddysgwyd.14

**26.** Trafododd y Pwyllgor gyda Llywodraeth Cymru a yw'r profiad gyda Kancoat (a mentrau busnes eraill sydd wedi methu) wedi ei harwain i ailwerthuso ei hawydd i gymryd risgiau yn y maes hwn. Mewn ymateb i hyn, dywedodd James Price:

> "… I think that's another very fair question and one that kind of goes to the heart of the whole issue here, actually, and the heart of the whole issue of Government being involved in economic development. So, the rationale, widely accepted across the economic development world, even if you look at the development of less-developed-countries literature, will say that Government's involvement should be as a lender of last resort. 'A lender of last resort' implies that you should finance things that the private sector won't finance. Financing things that the private sector won't finance implies taking risks that the private sector won't take, which implies things are going to fail."[15]

**27.** Mae'r Pwyllgor yn cytuno â'r honiad hwn gan James Price, y dylai Llywodraeth Cymru ddim ond ariannu prosiectau sy'n ormod o risg i'r sector preifat. Fodd bynnag, ni wnaeth y dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig a gafwyd yn ystod yr ymchwiliad hwn lawer i dawelu ein pryderon bod diffyg cydlyniad yn ymagwedd Llywodraeth Cymru at fenthyca. Yn achos Kancoat, roedd nifer sylweddol o risgiau a ddylai, o'u hystyried i gyd gyda'i gilydd, fod wedi peri pryder i Lywodraeth Cymru.

## Y gydberthynas rhwng swyddogion Kancoat a Llywodraeth Cymru

**28.** Nodir yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol fod cyfarwyddwr Kancoat wedi dweud ei fod yn anfodlon ar y ffordd y gwnaeth Llywodraeth Cymru drin cais y cwmni i gael cymorth ariannol, ar y sail ei fod wedi cael negeseuon anghyson am faint o arian a allai fod ar gael. Ystyriodd y Pwyllgor y gydberthynas hon, ac a roddodd y Cwmni unrhyw bwysau ar swyddogion Llywodraeth Cymru i gynyddu'r cyllid. Dywedodd James Price:

> "… I am almost certain that pressure would have been put on officials and possibly on the Minister by the company, and I am equally certain that that is what happens in most instances of companies looking for finance. And frankly, if I was working for a company that was looking for finance, I'd probably do the same thing, as in, I would try to get as much out of the Government as possible, and our job is to assess whether it's worth giving the company anything and to make it the minimum necessary. So, I suspect that the company did; I don't know for sure that the company did, but I suspect they did. It's annoying, if you're working within Government, but I don't think there's anything wrong with it, and our systems and processes do not allow for that to have any influence on staff."[16]

[14] Tystiolaeth ysgrifenedig, PAC(5)-03-16 P8, 19 Medi 2016
[15] Cofnod y Trafodion, 14 Tachwedd 2016, paragraff 189
[16] Cofnod y Trafodion, 14 Tachwedd 2016, paragraff 192

**29.** Dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrth yr Archwilydd Cyffredinol, a chadarnhawyd eto wrth y Pwyllgor, mai'r rheswm am y cynnydd mewn cyllid dilynol, o £500,000 i £788,000, oedd oherwydd bod amgylchiadau'r cwmni wedi newid, ac felly nid oedd y cynnydd hwn yn gysylltiedig â'r sylwadau a wneir gan gyfarwyddwr Kancoat.17

**30.** Hefyd, holodd y Pwyllgor swyddogion ynghylch rôl Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ar y pryd (Edwina Hart) a oedd yn gyfrifol am benderfyniadau ynghylch dyfarnu'r brydles a chyllid busnes ad-daladwy. Roedd hyn yn arbennig o berthnasol gan fod lleoliad y llinell araenu coiliau, er nad yn ei hetholaeth, lai na milltir o ffin ei hetholaeth.

**31.** Ar ôl cyhoeddi adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, bu beirniadaeth yn y cyfryngau o gysylltiad y cyn-Weinidog â Kancoat. Mae Syr Alistair Graham, Cyn-Gadeirydd Pwyllgor y DU ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus wedi awgrymu bod y cysylltiad hwn yn wrthdaro posibl o ran buddiannau, neu'n ganfyddiad o wrthdaro o ran buddiannau rhwng ei rôl fel Aelod Cynulliad a'i rôl fel Gweinidog.18

**32.** Gofynnodd y Pwyllgor i'r tystion a oedd gwrthdaro o ran buddiannau neu ganfyddiad o wrthdaro o ran buddiannau. Dywedodd James Price wrth y Pwyllgor na fyddai hyn wedi bod yn bosibl oherwydd y Cod Gweinidogol a'r prosesau a'r gweithdrefnau sydd ar waith na fyddai'n caniatáu ar gyfer unrhyw ddylanwad gormodol. Mae'r Cod Gweinidogol, sy'n cael ei oruchwylio gan y Prif Weinidog, yn gwahardd Gweinidogion Cymru unigol rhag cyfrannu at benderfyniadau o fewn eu hetholaethau eu hunain. Fodd bynnag, ym mhob achos arall, mae unrhyw benderfyniad i esgusodi eu hunain rhag cymryd rhan yn fater o farn Gweinidogion unigol. Ychwanegodd:

> "In this instance, because the investment was outside the Minister's constituency area, that process wasn't adopted because there was deemed not to be a conflict of interest."[19]

**33.** Mynegodd James Price bryder bod hyn yn cael ei ddehongli fel gwrthdaro o ran buddiannau yn seiliedig ar agosrwydd at etholaeth y Gweinidog oherwydd:

> "I don't think there was any blurring of understanding in this case, because the test was simply: is it in the constituency area, or not? This is a matter for Ministers, rather than officials, so I don't want to get too drawn on this, but what I would say is, if we started to try to get into those areas of grey, how do you define when something is a conflict and when something isn't a conflict, particularly with the travel-to-work areas that we have in Wales? You could be locking out most Assembly Members, for instance, in south-east Wales from any investment anywhere in south-east Wales, if we were to adopt a different approach to it, and I suspect we'd get ourselves into more difficulty. But I can understand what motivates the question."[20]

**34.** Er nad oedd y Pwyllgor yn gweld unrhyw dystiolaeth o ddylanwad gormodol gan y Gweinidog ar y pryd, credwn y dylai'r potensial ar gyfer gwrthdaro canfyddedig o ran buddiannau fod wedi'i nodi a'i ystyried wrth wneud y penderfyniad hwn. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried yr ymagwedd

[17] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar archwilio cymorth Llywodraeth Cymru ar gyfer Kancoat, paragraff 3.25, Gorffennaf 2016

[18] Erthygl newyddion BBC Cymru, 24 Awst 2016, fel ar 1 Chwefror 2017

[19] Cofnod y Trafodion, 14 Tachwedd 2016, paragraff 21

[20] Cofnod y Trafodion, 14 Tachwedd 2016, paragraff 23

ehangach at ddiffinio'r sector, a sut i ddyfarnu'r cyllid, rhywbeth y mae Llywodraeth Cymru wedi'i fabwysiadu i fynd i'r afael â'r argyfwng ariannol.

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Prif Weinidog yn sicrhau bod y Cod Gweinidogol yn ei gwneud yn ofynnol ystyried gwrthdaro canfyddedig o ran buddiannau a bod canlyniad ystyriaeth o'r fath yn cael ei ddogfennu'n llawn ac yn ffurfiol.

# 03. Model Busnes Kancoat

## Y penderfyniad i fuddsoddi yn Kancoat

### Methiannau busnes blaenorol ar y llinell araenu coiliau

**35.** Roedd Kancoat i fod i weithredu o safle gyda llinell araenu coiliau sy'n bodoli eisoes. Yn wreiddiol, roedd y llinell yn cael ei defnyddio gan Alcoa Manufacturing (GB) Ltd (Alcoa), perchnogion safle Waunarlwydd. Gyda chymorth grant gwerth £350,000 gan Lywodraeth Cymru, bu cwmni o'r enw Falcon Steel Ltd yn negodi prydles i ddefnyddio rhan o'r safle gydag Alcoa yn 2009. Fodd bynnag, roedd Falcon Steel Ltd yn methu â gwneud llwyddiant masnachol o'r llinell a throsglwyddwyd y brydles a pherchnogaeth y llinell i Falcon Holdings UK Ltd yn 2010. Aeth y ddau gwmni i ddwylo'r gweinyddwyr yn 2011. Un rhwystr mawr i'r safle oedd bod perchennog Alcoa Ltd, wedi gosod gwaharddiad sefydlog ar brosesu alwminiwm ar y safle tan 1 Ionawr 2018. Roedd hyn yn golygu mai dim ond dur neu swbstradau eraill megis tunplat oedd yn cael eu prosesu gan y peiriannwaith presennol ar y llinell tan y dyddiad hwnnw.

**36.** Holodd y Pwyllgor swyddogion Llywodraeth Cymru pam y gwnaed y penderfyniad i gefnogi'r busnes hwn o ystyried y methiannau blaenorol a oedd wedi digwydd ar ddau achlysur a chyflwr y diwydiant alwminiwm yn Ne Cymru.

### Yr achos busnes

**37.** Yn ychwanegol at bryderon ynghylch hyfywedd y busnes, o ystyried y methiannau blaenorol ar y llinell araenu coiliau, roedd nifer o bryderon ynghylch yr achos busnes. Daeth adroddiad swyddog diwydrwydd dyladwy Llywodraeth Cymru ei hun i'r casgliad a ganlyn:

> "…ac eithrio ynglŷn â Coilcolor Ltd, nid oes gan [Lywodraeth Cymru] unrhyw wybodaeth ariannol am statws y ddau gyfranddaliwr arall, yn ariannol nac fel arall. Ymddengys mai enw busnes o'r Emiraethau Arabaidd Unedig yw Building Products Offshore Fze, ond ni ellir dod o hyd i endid o'r enw hwnnw wrth chwilio ar y rhyngrwyd, ac nid oes gennym CV ar gyfer [Rheolwr Gyfarwyddwr Kancoat]."[21]

**38.** At hynny, daeth adolygiad diwydrwydd dyladwy wedi'i ddiweddaru a baratowyd ym mis Chwefror 2013, yn dilyn cais Kancoat i gynyddu ei gyllid, i'r casgliad a ganlyn:

> "Mae'r cynllun busnes yn ymddangos yn wan ac anghyson. Mae'r risgiau cynhenid, sydd ynghlwm wrth Kancoat fel cwmni newydd, yn parhau. Mae disodli Grŵp Coilcolor, a cholli eu cyfranogiad a'u gwarant yn peri, i bob pwrpas, nad oes dim i liniaru'r risgiau a nodwyd. Golyga'r cynnig fod LlC, fel landlord, yn wynebu risg ychwanegol sylweddol. Nodwyd yn yr asesiad cychwynnol fod risg uchel yn gysylltiedig â'r prosiect hwn. Mae'r cynnig diwygiedig a'r datblygiadau sydd ynglŷn â hynny wedi cynyddu lefel y risg yn hytrach na'i lliniaru." [22]

**39.** Holodd y Pwyllgor y swyddogion am eu cyfiawnhad dros y buddsoddiad, o ystyried y pryderon a godwyd gan yr adolygydd diwydrwydd dyladwy. Eglurodd Mick McGuire, Cyfarwyddwr Sectorau a

---

[21] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar archwilio cymorth Llywodraeth Cymru ar gyfer Kancoat, Gorffennaf 2016
[22] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar archwilio cymorth Llywodraeth Cymru ar gyfer Kancoat, Gorffennaf 2016

Busnes, Llywodraeth Cymru, fod y cyngor diwydrwydd dyladwy wedi'i gymryd yn y rownd ochr yn ochr â gwybodaeth arall, felly, er enghraifft:

> "… in the absence of a CV, we asked the sector to go and get the evidence of the experience of the senior partners and to share that back with the panel, which was shared. I think there was something like 60 years of experience in coating tinplate, aluminium and steel in the three senior practitioners. In terms of the projections, those projections get reworked, and that's what this pile of 1,000 pages is."[23]

**40.** Er gwaethaf y sicrwydd gan Lywodraeth Cymru ynghylch y broses a thrylwyredd y broses o wneud penderfyniadau, mae'r Pwyllgor yn parhau heb ei argyhoeddi, o ystyried nifer y pryderon a'u harwyddocâd a amlygwyd gan y diwydrwydd dyladwy, y dylai'r Llywodraeth fod wedi gwneud y buddsoddiad cychwynnol yn y cwmni hyd yn oed.

**Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r penderfyniadau i fynd yn groes i gyngor yr adroddiad diwydrwydd dyladwy gael eu cofnodi'n glir yn nogfennaeth y prosiect. Nid yw hyn yn golygu y dylid dilyn hyn ym mhob achos, ond dylai tystiolaeth o ystyriaeth lawn yn cynnwys dadansoddiad o'r farchnad, a'r rhesymau dros benderfyniadau gael eu cofnodi er mwyn sicrhau y cynhelir gwerth diwydrwydd dyladwy.

## Anawsterau masnachu Kancoat, a'r angen am fwy o arian gan Lywodraeth Cymru i'w gadw i fynd

**41.** Dim ond un prif gyflenwr coil dur yn y DU oedd gan Kancoat. Fodd bynnag, roedd y cyflenwr hwn yn wynebu anawsterau annisgwyl yn gynnar yn 2014 ac o ganlyniad i hyn, roedd yn rhaid i Kancoat chwilio am gyflenwyr amgen o ddur o dramor (Ffrainc a Korea). Cododd yr anawsterau hyn gwta chwe mis ar ôl i Lywodraeth Cymru ddarparu cymorth sylweddol (£778,000 o gyllid ad-daladwy nad yw'n ad-daladwy, a benthyciad gwerth £0.8 miliwn) er mwyn galluogi Kancoat i brynu a gweithredu'r llinell araenu coiliau.

**42.** Gwnaeth Kancoat gais am fenthyciad ychwanegol o £500,000, ac roedd yn rhagweld na allai, heb yr arian ychwanegol hwn, brynu deunyddiau crai er mwyn bodloni ei lyfr archebion ac y byddai'n rhoi'r gorau i fasnachu. Cytunwyd ar yr ail fenthyciad hwn a chafodd ei dalu ar 14 Chwefror 2014.

**43.** Mae'r Pwyllgor yn pryderu yr ymddengys fod Llywodraeth Cymru wedi parhau i fuddsoddi arian yn Kancoat, ac yn teimlo bod y Llywodraeth wedi 'arllwys arian da ar ôl drwg' ar ôl i'r penderfyniad gael ei wneud i fuddsoddi. Ymddengys na ystyriwyd braidd ddim ai hwn oedd y dull gorau neu a ddylai Llywodraeth Cymru fod wedi rhoi'r gorau iddi ar unrhyw adeg, yn hytrach na pharhau i fuddsoddi. Er bod y Pwyllgor yn gwerthfawrogi bod angen penderfyniad cymharol gyflym ar fusnesau o ran cyllid, nid ydym yn credu y dylai hyn olygu nad yw ceisiadau pellach yn amodol ar gyfnod o ystyriaeth briodol ynghylch a yw'r buddsoddiad yn dal i fod yn werth y risg.

**Argymhelliad 9.** Mae'r Pwyllgor yn argymell, wrth ymdrin â cheisiadau am ddarparu cymorth ariannol ychwanegol i gwmnïau, y dylai Llywodraeth Cymru gynnwys cyfnod mwy cadarn ar gyfer 'oedi ac adlewyrchu' yn ei phrosesau diwydrwydd dyladwy, ystyriaeth a chymeradwyaeth.

[23] Cofnod y Trafodion, 14 Tachwedd 2016, paragraff 178

## Colledion Llywodraeth Cymru

**44.** Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn cynnwys amcangyfrif o golled bosibl i'r coffrau cyhoeddus o £1.5 miliwn, er ei fod yn nodi y gallai'r ffigur terfynol fod yn wahanol iawn yn dibynnu ar nifer o ffactorau. Mae'r Pwyllgor yn pryderu y gallai'r ffigur terfynol fod yn uwch na'r amcangyfrif cychwynnol hwn, ac mae'r adrannau isod yn amlinellu rhai meysydd lle bydd hyn yn digwydd.[24]

### Prisiad y llinell araenu coiliau

**45.** Yn ystod y broses o benderfynu a ddylid cefnogi Kancoat i brynu'r llinell yn ystod haf 2013, dewisodd swyddogion Llywodraeth Cymru ddibynnu ar brisiad asedau a gafwyd gan Coilcolor Limited yn 2011, yn hytrach na chael prisiad annibynnol diweddar. At hynny, ni wnaeth y swyddogion ddilyn cyngor adolygydd 'diwydrwydd dyladwy' Llywodraeth Cymru y dylid cael prisiad annibynnol. Dywedodd James Price:

> "…the investment panel, if they were here now—would say to you, because they said to me, that they believed there was sufficient headroom in the valuation—which was done by GVA Grimley Ltd, I think, Mick, which is a well-regarded valuation agency, and there was a further valuation done a year later for a set of different people, again to proper standards, which again saw £2 million more than we needed to get back."[25]

**46.** Fodd bynnag, dywedodd hefyd ei fod yn credu y dylid fod wedi cael prisiad annibynnol[26] ac mai rhan o'r rheswm am hyn oedd:

> "And the reason why I would want one for me—this is not necessarily a very good—. It doesn't maybe paint me in a very good light, but valuation companies will have public indemnity insurance, but the public indemnity insurance can only be called on by the people whom they're acting for. So, if someone got something very wrong for me and I had paid them to do it, then we could sue their insurance company for it."[27]

**47.** O ystyried y pwysigrwydd a roddir ar werth ased y llinell araenu coiliau fel sicrwydd cyfochrog wrth benderfynu p'un a ddylid rhoi cymorth ariannol i Kancoat, roedd y Pwyllgor wedi synnu na chafodd Llywodraeth Cymru brisiad annibynnol diweddar ac y penderfynodd beidio â dilyn cyngor y swyddog diwydrwydd dyladwy ar hyn. Nid oedd yn glir i'r Pwyllgor fod y gweision sifil a oedd yn ymwneud â'r penderfyniad hwn yn meddu ar y sgiliau proffesiynol angenrheidiol i lunio barn ar brisiadau. Mae'r Pwyllgor yn pryderu nad dyma'r tro cyntaf lle dylid fod wedi cael prisiadau annibynnol er bod mater gwahanol a llawer ehangach, y mater o gael prisiadau priodol, yn nodwedd arwyddocaol o fewn y methiannau yn y Gronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio. Mae'n hanfodol cael prisiadau annibynnol a diweddar a byddai'r Pwyllgor yn disgwyl i hyn gael ei gynnwys yn y gofynion ar gyfer unrhyw fuddsoddiadau yn y dyfodol lle mae diogelwch asedau yn cael ei gynnig fel dull diogelu ar gyfer arian cyhoeddus.

---

[24] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar archwilio cymorth Llywodraeth Cymru ar gyfer Kancoat, Gorffennaf 2016
[25] Cofnod y Trafodion, 14 Tachwedd 2016, paragraff 206
[26] Cofnod y Trafodion, 14 Tachwedd 2016, paragraff 206
[27] Cofnod y Trafodion, 14 Tachwedd 2016, paragraff 210

**Argymhelliad 10.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer buddsoddiadau yn nodi'n glir bod angen cael prisiadau proffesiynol annibynnol a diweddar ar unrhyw asedau a gynigir fel diogelwch cyfochrog cyn cytuno ar unrhyw gyllid.

**48.** Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi mai'r sefyllfa waethaf bosibl fyddai cael gwared ar y peiriannau llinell araenu am eu gwerth sgrap, a allai arwain at enillion o tua £1.25 miliwn[28]. O ran y negodi, eglurodd, James Price bod dwy elfen:

> "One is the state of the line. So, it has deteriorated slightly from when it was being used. And the second is there was a piecemeal valuation in there in terms of scrap. The price of scrap metal has been all over the place, and this was one thing we discussed last week, actually. My view is that, provided we're not leasing the land any longer, if it had to go for scrap we shouldn't immediately offload it if scrap is very low at the minute, and we should wait until we can get the best value for it. But the lesson has been learned, and we would take an independent valuation."[29]

**49.** Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn pryderu bod y ffigur o £1.25 miliwn yn seiliedig ar brisiad sy'n rhyw bum mlwydd oed, a bod pris dur wedi lleihau'n sylweddol ers hynny. Felly, mae'n bosibl y gallai'r gwerth sgrap presennol fod yn llawer is na hyn.

### Costau pellach sy'n gysylltiedig â chael gwared ar y llinell gaenu

**50.** Fel rhan o'i chytundeb prif brydles gydag Alcoa, cytunodd Llywodraeth Cymru i fod yn atebol i dalu costau adfer safleoedd anfesuradwy ar yr 'adeg briodol'. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad o hyn, ac eglurodd James Price:

> "…I think this will be, primarily, two things. It will be, firstly, if we have to strip out the line and make good, and, secondly, there's a dividing wall, I believe, that was put up within the unit. I've never been to the unit, but I believe there's a dividing wall—a concrete block wall, quite a big concrete block wall—that's been put up. That needs to be taken out and made good."[30]

**51.** Mae'r Pwyllgor yn deall mai dim ond pan fydd y safle wedi'i waredu y bydd y costau hyn yn glir, a bydd yn dibynnu ar fwriad preswylydd nesaf y safle. Rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am y mater hwn cyn gynted ag y bydd trafodaethau ar gyfer y safle wedi dod i ben.

### Rhagolygon ar gyfer y llinell gaenu a dyfodol y safle diwydiannol yn ehangach

**52.** Roedd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi ar adeg ei gyhoeddi, ym mis Gorffennaf 2016, nad oedd unrhyw geisiadau ar gyfer y llinell araenu dur wedi dod i law. Mae hefyd yn nodi bod Alcoa wedi rhoi safle cyfan Waunarlwydd ar werth.[31] Gofynnodd y Pwyllgor i'r swyddogion am y wybodaeth ddiweddaraf am y lefel o ddiddordeb a fu o ran datblygu'r llinell araenu coiliau yn y dyfodol

---

[28] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar archwilio cymorth Llywodraeth Cymru ar gyfer Kancoat, paragraff 3.59, Gorffennaf 2016
[29] Cofnod y Trafodion, 14 Tachwedd 2016, paragraff 214
[30] Cofnod y Trafodion, 14 Tachwedd 2016, paragraff 217
[31] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar archwilio cymorth Llywodraeth Cymru ar gyfer Kancoat, paragraff 3.55, Gorffennaf 2016

ers i Kancoat fynd i ddwylo'r gweinyddwyr yn 2014. Dywedodd James Price fod Llywodraeth Cymru yn cynnal trafodaethau, ond na allai roi rhagor o wybodaeth ar hyn o bryd gan fod y trafodaethau'n parhau ac yn fasnachol sensitif.[32]

**53.** Mae'r Pwyllgor o'r farn bod y trafodaethau hyn yn ystyriaeth bwysig yn y gost derfynol i'r coffrau cyhoeddus, ac fel y cyfryw yn credu y dylai Llywodraeth Cymru roi gwybod inni am ganlyniad y trafodaethau hyn.

**Argymhelliad 11.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor am ganlyniad unrhyw drafodaethau ar gyfer y safle, a'r effaith a gaiff hyn ar y swm terfynol a gollwyd o ganlyniad i'r buddsoddiad yn Kancoat a dylai hyn gynnwys cost unrhyw waith adfer.

[32] Cofnod y Trafodion, 14 Tachwedd 2016, paragraff 220

# Atodiad - Tystion

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiad a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiad llawn o'r sesiwn tystiolaeth lafar yn: http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=15048

| Dyddiad | Enw a sefydliad |
|---|---|
| 14 Tachwedd 2016 | James Price, Llywodraeth Cymru<br>Mick McGuire, Llywodraeth Cymru<br>Simon Jones, Llywodraeth Cymru |